

PRIFYSGOL ABERTAWE

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

(Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg 2004)

CYNLLUN IAITH GYMRAEG PRIFYSGOL ABERTAWAWE

1. Rhagarweiniad

1.1 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Yn unol ag Adran 61(n) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i Brifysgol Abertawe baratoi Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae Prifysgol Abertawe wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, trwy gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr Iaith Saesneg a'r Iaith Gymraeg yn gyfartal.

Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Prifysgol Abertawe'n gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac addysg i'w myfyrwyr.

Bydd y Brifysgol gofyn am gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn gwneud unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cynllun hwn.


1.2 Y Cynllun Iaith

Bu'r Cynllun Iaith yn cael ei weithredu yn y sefydliad ers mis Medi 2004 a phenodwyd Swyddog Polisi Iaith Gymraeg yn y man cyntaf ym mis Awst 2004.

Mae'r cynllun hwn a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar Dachwedd 21ain, 2011 yn cymryd lle Cynllun Iaith blaenorol Prifysgol Abertawe, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 21 Medi 2004.

Bydd y cynllun diwygiedig hwn yn barhad ac yn ymestyniad i'r Cynllun Iaith Gymraeg gwreiddiol a bydd ganddo gymeradwyaeth lawn y sefydliad. Mae'r ymrwymadau a amlinellir yn y cynllun diwygiedig hwn yn effeithiol o fis Medi 2010.

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun diwygiedig hwn, bydd Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg, a gadeirir gan y Dirprwy Is-ganghellor (Rhyngwladoli a Materion Allanol) yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun. Er mwyn gosod y cynllun hwn wrth wraidd y sefydliad, bydd Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg yn atebol fel y nodir drosodd. Caiff adroddiadau monitro blynyddol hefyd eu cyflwyno i'r Senedd a'r Cyngor drwy'r Bwrdd Rheoli.



1.3 Ymrwymiadau Polisi i'r Cynllun

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wrth wraidd uchelgais y Brifysgol i fod yn sefydliad dwyieithog gwirioneddol.

Un o amcanion strategol y Brifysgol ar gyfer y pum mlynedd nesaf (2009-14) yw ehangu diwylliant dwyieithog o fewn y Brifysgol a hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddwn yn gyrru'r uchelgais hwn yn ei flaen gan fanylu ar gynlluniau, polisiau, targedau a dulliau o fonitro cynnydd.

Mae'r Cynllun hwn yn adlewyrchu ymrwymiad cynyddol y Brifysgol i'r Iaith Gymraeg, ei chynlluniau i annog y defnydd a wneir ohoni ac i hyrwyddo cyfleoedd i'w defnyddio. Mae'r Brifysgol hefyd yn ymrwymedig i hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaethau Iaith Gymraeg y mae'n eu cynnig.

Mae Prifysgol Abertawe'n falch o'i llwyddiant academaidd a'i safonau uchel. Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn dangos yr un ymrwymiad drwy ddarparu gwasanaethau dwyieithog o ansawdd uchel i aelodau'r cyhoedd sy'n dod i gyswllt â'r Brifysgol.

1.4 Yr egwyddorion sylfaenol

Trwy drin y Gymraeg a'r Saesneg 'yn gyfartal' bydd y Brifysgol yn parhau i wneud yn siŵr bod dewis gan y cyhoedd i gyfathrebu â'r Brifysgol naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg ac i dderbyn gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol.

Mae'r Cynllun yn gosod y 'cyhoedd' wrth wraidd ei gynlluniau. Yng nghyd-destun y Cynllun hwn mae'r term 'cyhoedd' yn golygu unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sy'n dod i gyswllt â'r Brifysgol yng Nghymru, gan gynnwys staff, darpar fyfyrwyr a myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn y Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn datblygu strategaeth sgiliau dwyieithog i fynd i'r afael â lefelau sgiliau isel yn y Gymraeg ymhlith staff a diffyg hyder a thraddodiad ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Gwneir staff yn ymwybodol, drwy gefnogaeth a hyfforddiant sensitif a phriodol, o bwysigrwydd a manteision sgiliau dwyieithog.

Mae gan y Brifysgol ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel cyfartal yn Saesneg ac yn Gymraeg fel ei gilydd. Bydd yn gosod safonau penodol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau ac ymdrin â'r cyhoedd, bydd yn monitro'r safonau hynny ac yn eu gweithredu, ac yn sicrhau safon gyson yn y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.

2. Cefndir

2.1 Natur Prifysgol Abertawe

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe yn dilyn derbyn y Siarter Frenhinol ym 1920 ar ôl ymgyrch gan ddiwydianwyr lleol a phobl y dref.

Mae'r Brifysgol yn cynnig dros 500 o gyrsiau israddedig a 130 o gyrsiau ôl-raddedig mewn ystod eang o feysydd pwnc a chynllun addysg barhaus helaeth. Mae cyfleusterau cymdeithasol, diwylliannol a chwaraeon yn cyfrannu at deimlad cymunedol cryf y mae'r Brifysgol yn ei groesawu.

Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli'n bennaf ym Mharc Singleton, â rhywfaint o eiddo arall hefyd yn Ninas a Sir Abertawe. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd mawr ym Mae Abertawe.

Gan ystyried natur ryngwladol y Campws, Saesneg yw'r iaith gyffredin sy'n dod â staff a myfyrwyr ynghyd o bob man ar draws y byd. Mae gwreiddiau Cymraeg y Brifysgol yn ychwanegu cyfoeth at yr amgylchedd hwn a thrwy gydnabod pwysigrwydd ei gwaith a'i rôl yng Nghymru, mae'r Brifysgol yn atgyfnerthu amgylchedd rhyngwladol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'i rôl yn y gymuned ddwyieithog leol a chenedlaethol yng Nghymru ac yn falch o'i chyfraniad at lwyddiant y gymuned honno. Mae wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i fywyd diwylliannol Cymru ers 90 o flynyddoedd drwy waith ffigyrau cenedlaethol megis Hywel Teifi Edwards, TJ Morgan, a Saunders Lewis. Roedd hi hefyd o blith y prifysgolion cyntaf i geisio am fwsariaethau yn rheolaidd i ganiatáu i fyfyrwyr dawnus o gefndiroedd dosbarth gwaith astudio yn Abertawe.

Prifysgol Abertawe oedd man geni Prifysgol Gymunedol y Cymoedd sy'n cynnwys partneriaeth rhwng y sector addysg uwch a'r sector gwirfoddol yn Ne-orllewin Cymru. Ei nod oedd hyrwyddo'r gwaith o ehangu cyfranogiad a darparu cyfleoedd addysg uwch cymunedol addas ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru. Cyflawnodd, ac mae'n parhau i gyflawni, hyn trwy'r rhaglenni 'Llwybrau Datblygu' (*Pathways to Progression*) a'r graddau rhan-amser yn y dyniaethau, sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau cymunedol trwy dde orllewin Cymru.

Cyfanswm y boblogaeth myfyrwyr yn 2009/2010 oedd 15,734 ac o blith y rhain, roedd 8748 ohonynt yn dod o Gymru. O'r rhain, dynododd 1199 eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl o'i gymharu â 581 o siaradwyr Cymraeg yn 2002/3 – cynnydd o dros 48%.

Nifer y staff a gyflogwyd gan y Brifysgol yn 2009/10 oedd 2,514. Mae'r cofnodion diweddaraf ar gyfer 2009/10 yn dangos bod 357 aelod o staff wedi dynodi bod ganddynt rywfaint o hyfedredd yn y Gymraeg.

2.2 Polisiau a Mentrau Newydd

Mae'r Brifysgol yn gwneud ymrwymiad cadarn i asesu goblygiadau ieithyddol unrhyw bolisiau a mentrau newydd wrth eu ffurfio, â'r nod o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r

Gymraeg lle bynnag y bo'n bosib. Bydd Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg a Phwyllgor Defnyddio'r Gymraeg y Brifysgol yn gyfrifol am sicrhau bod polisiau a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun hwn ac nad ydynt yn ei danseilio.

Caiff staff sy'n ymwneud â chreu'r polisi eu hysbysu o'r egwyddorion cyfartaledd a chyfrifoldebau'r Brifysgol dan y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd pob aelod newydd o staff yn derbyn gwybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg yn eu pecynnau sefydlu, a thrwy sesiynau briffio adrannol rheolaidd, a'r rhwydwaith cydlynwyr Iaith Gymraeg. [gweler y nodyn dan bolisiau staff 3.4.]

Bydd y Brifysgol yn gweithio i gynnwys yr iaith Gymraeg fel agwedd i'w hystyried mewn Asesiadau Effaith a gynhelir gan y Brifysgol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd datblygiadau a mentrau newydd yn effeithio'n negyddol ar yr iaith, megis y lefel o staff sy'n siarad Cymraeg, ac yn sgil hynny, darpariaeth addysgu a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Caiff hyn ei fonitro drwy ddefnyddio'r system a amlinellir yn adran 7.1.

Bydd y Brifysgol yn cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

2.2.1 Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae 22.5% o boblogaeth Dinas a Sir Abertawe (48,582 o bobl) yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae gan awdurdod unedol Abertawe'r trydydd nifer mwyaf o breswylwyr â sgiliau Iaith Gymraeg ar ôl Gwynedd a Sir Gaerfyrddin.

Y grŵp mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth leol, yn ôl Cyfrifiad 2001, yw'r grŵp oedran 10-14.

Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, i ddygymod â'r twf a'r galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal, mae ysgol gynradd Gymraeg ac ysgol gyfun Gymraeg wedi'u sefydlu yn Abertawe.

I adlewyrchu'r cyd-destun ieithyddol hwn ac yn unol â mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb*, a *Iaith Fyw*, *Iaith Byw* a'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i gynyddu niferoedd y modiwlau a'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr. Yn 2009/10, roedd 140 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar gyrsiau neu fodiwlau cyfrwng Cymraeg.

2.2.2 Academi Hywel Teifi

Yn 2010 creodd y Brifysgol Academi Hywel Teifi, canolfan ragoriaeth ar gyfer astudiaethau Cymreig a chanolbwynt strategol ar gyfer sgiliau Iaith Gymraeg, ysgolheictod cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd cymdeithasol yn yr Iaith Gymraeg o fewn y Brifysgol.

Bydd Academi Hywel Teifi yn rhoi proffil uchel i'r iaith Gymraeg ar y Campws a bydd yn bwerdy ar gyfer hyrwyddo diwylliant dwyieithog a Chynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.

2.2.3 Ailstrwythuro Mewnol

Wrth i strwythur mewnol darpariaeth academaidd y Brifysgol ddatblygu o fod yn strwythur Ysgolion i fod yn Strwythur Colegol, gyda chanolfannau ymchwil a phrosiectau ymchwil

perthynol, bydd amcanion a darpariaethau'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi'u diffinio'n glir mewn perthynas â'r strwythur newydd hwn.

2.2.4 Ethos Dwyieithog

Bu'r Gwasanaeth Cyfieithu yn bennaf gyfrifol am weithredu'r Cynllun yn y gorffennol. Yn y dyfodol bydd Adrannau'r Brifysgol, Colegau a Staff yn cymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth gyfrannol o'r cynllun a fydd yn datblygu ethos dwyieithog y Brifysgol.

O ganlyniad i agor Academi Hywel Teifi yn ddiweddar, sy'n cynnwys Canolfan Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru, mae gan y Brifysgol bellach ganolfan ragoriaeth ar gyfer addysgu a hyrwyddo'r Gymraeg ar y campws.

Yn ddiweddar, bu'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn cynnal cynllun peilot, a ariennir gan grant, i staff sy'n siarad Cymraeg, yn darparu hyfforddiant ymarferol a chymorth er mwyn magu hyder yn yr iaith a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'r Brifysgol yn gobeithio cynnal cwrs 'Gweithle Dwyieithog' blynyddol. Bydd hefyd yn adolygu anghenion hyfforddi iaith Gymraeg eraill i staff – yn ffurfiol ac yn anffurfiol – ac mae'n gobeithio cynllunio hyfforddiant perthnasol i gwrdd â'r anghenion hyn fel rhan o ddatblygiad ei Strategaeth Sgiliau Dwyieithog [gweler yr adran ar Strategaeth Sgiliau Dwyieithog]. Bydd y deunydd cynorthwyol (megis templedi a llythyrau ffurf) a grëir gan y cwrs ar gael yn rhwydd i staff ar sail barhaus drwy wefan y Brifysgol. Caiff y cwrs ei gynnegi i staff fel rhan o'r rhaglen datblygu staff.

Bydd y Brifysgol yn annog ac yn hyrwyddo cymuned o siaradwyr Cymraeg, drwy gyfres o fentrau, er enghraifft drwy gynnal boreau coffi dyddiol i'r rheiny sy'n dymuno gwella'u sgiliau iaith Cymraeg a chyfarfodydd cymdeithasol yn ystod amser cinio i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Caiff rhestr e-bostio gyfredol o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ei datblygu i gyhoeddi a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn.

2.2.5 Rhannu adnoddau

Mae trafodaethau wedi'u cychwyn yn ymwneud â'r posibilrwydd o rannu arferion da ac adnoddau gyda sefydliadau addysgol a chyrff cyhoeddus eraill yn y rhanbarth.

Rhennir arferion gorau drwy'r rhwydwaith o swyddogion iaith Gymraeg mewn sefydliadau Addysg Uwch, a thrwy ddatblygu rhwydweithiau agos â chyrff lleol eraill yn y rhanbarth. Y nod fydd archwilio defnyddio adnoddau yn effeithiol drwy bartneriaethau a sicrhau darpariaeth gyson o wasanaethau iaith Gymraeg ar draws y rhanbarth.

3. Y Cynllun

Mae Adran 3 yn ymwneud yn bennaf ag agweddau gweinyddol o fewn y sefydliad.

3.1 Cyswllt â'r Brifysgol (ymdrin â'r cyhoedd)

3.1.1 Cyfathrebu ysgrifenedig â'r cyhoedd

Rydym yn croesawu pob math o gyfathrebu ysgrifenedig yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Byddwn yn cynnwys neges yn croesawu defnyddio'r Gymraeg ar holl ddeunydd ysgrifennu ac e-byst swyddogol y Brifysgol i annog defnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus.

Byddwn yn ymateb i lythyrau Cymraeg yn yr un raddfa amser darged ag yn Saesneg, ac yn darparu ateb arwyddedig, os oes angen.

Byddwn yn gohebu yn Gymraeg â'r rheiny sydd well ganddynt wneud hynny yn Gymraeg, a lle y cafwyd trafodaethau wyneb i wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg yn barod.

Bydd gohebiaeth gorfforaethol a anfonir at unigolion a chyrrff yng Nghymru yn yr un iaith ag unrhyw ohebiaeth a dderbynnir. Lle mai'r iaith Gymraeg yw testun y cyfathrebu, gwneir hyn yn Gymraeg.

Bydd llythyrau cychwynnol safonol a anfonir at yr holl aelodau staff ac at bob myfyriwr cyfredol a darpar fyfyrwyr yng Nghymru yn ddwyieithog.

Caiff canllawiau eu dosrannu i bob adran ac ysgol ar gyfer ymdrin â gohebiaeth a chânt eu monitro gan y Cydlynnydd Iaith Gymraeg yn yr adran/Coleg.

Wrth gofrestru, gofynnir i fyfyrwyr ym mha iaith yr hoffent dderbyn gohebiaeth gorfforaethol bersonol swyddogol, a chaiff y dewis hwn ei barchu yn achos pob gohebiaeth gorfforaethol swyddogol gan y Brifysgol.

Mae gohebiaeth electronig yn amodol ar yr holl gymalau yn yr adran hon.

Bydd pob llofnod e-bost yn ddwyieithog. Bydd teitlau swyddi a manylion cyswllt staff hefyd yn ymddangos yn ddwyieithog ar lythyrau ac e-byst.

3.1.2 Cyfathrebu dros y ffôn â'r cyhoedd

Mae'r Brifysgol yn croesawu galwadau ffôn naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Bydd staff switsfwrdd yn ateb pob galwad yn ddwyieithog.

Bydd pob cyfarchiad ar beiriannau ateb pob adran ganolog swyddogol/Coleg yn ddwyieithog - i annog y cyhoedd i adael negeseuon yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.

Caiff galwadau i adrannau canolog/swyddfeydd Colegau eu hateb yn ddwyieithog.

Anogir aelodau staff eraill sy'n ddwyieithog i ateb eu ffôn yn ddwyieithog neu yn Gymraeg.

Bydd y sgwrs sy'n dilyn yn cael ei chynnal yn iaith ddewisol y galwr.

Os yw galwr yn dymuno siarad Cymraeg ond nid yw'r aelod o staff sy'n ateb yn gallu siarad Cymraeg dylid trosglwyddo'r galwad i aelod staff dwyieithog.

Os nad oes aelod staff dwyieithog ar gael, rhoddir dewis i'r galwr gael galwad ffôn yn ôl yn hwyrach gan siaradwr Cymraeg, ysgrifennu at y Brifysgol neu siarad ag aelod o staff yn Saesneg.

Bydd y Brifysgol yn cynhyrchu cyfeirlyfr o siaradwyr Cymraeg sy'n gallu derbyn galwadau gan y cyhoedd. Drwy amlygu siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn y Brifysgol, anogir staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r iaith gydag eraill.

Caiff hyfforddiant ymdrin â galwadau ffôn yn Gymraeg ei gynnig i staff sy'n ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd yn rheolaidd, a chaiff y sgiliau hyn eu hadolygu yn flynyddol.

Caiff pob swydd wag ar gyfer y switsfwrdd canolog yn y dyfodol eu hysbysebu fel 'Cymraeg yn hanfodol'. Os nad yw'r Brifysgol yn gallu recriwtio siaradwyr Cymraeg i lenwi'r swyddi hyn, mae'n bosib y gofynnir i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu Cymraeg i lefel addas o fewn dwy flynedd i'w penodiad.

Hysbysebir swyddi lle bod staff yn ymdrin â galwadau ffôn ac ymholiadau gan y cyhoedd ym mhrif swyddfeydd gweinyddol adrannau a Cholegau fel 'Cymraeg yn ddymunol'

3.1.3 Cyfarfodydd cyhoeddus, darlithoedd a gwrandawladau cyhoeddus ac unrhyw gyfarfodydd cyfreithiol

Mae'r Brifysgol yn annog pob aelod o staff i roi croeso dwyieithog ym mhob cyfarfod, darlith a gwrandawliad sy'n agored i'r cyhoedd.

(i) Cyfarfodydd cyhoeddus a drefnwyd gan y Brifysgol i ymgynghori â'r cyhoedd.

Gall staff y Brifysgol a'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg a darperir offer cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfodydd hyn. Er mwyn hyrwyddo ac annog defnyddio'r Gymraeg, caiff y cyhoedd eu hysbysu drwy bosteri neu drwy wahoddiad y bydd cyfieithu ar y pryd ar gael a bod croeso iddynt siarad yn y cyfarfod yn eu hiaith ddewisol.

(ii) Darlithoedd a Chynadleddau agored i'r cyhoedd

Dylai cyhoeddusrwydd fod yn ddwyieithog ond dylai teitl unrhyw ddarlith fod yn yr iaith y traddodir y ddarlith ynddi, ac yn ddwyieithog os darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Wrth asesu'r angen am gyfieithu ar y pryd wrth drefnu darlith neu gynhadledd, dylai

trefnwyr y digwyddiad ystyried nod, amcanion a natur y digwyddiad mewn cyd-destun ieithyddol yn ofalus mewn trafodaeth â'r Swyddog Polisi Iaith Gymraeg. Caiff y casgliadau eu nodi. Gwahoddir cyfranogwyr i nodi o flaen llaw os hoffent gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg.

(iii) Y Seremoni Raddio

Bydd gan yr iaith Gymraeg rôl flaenllaw o hyd yn seremonïau graddio'r Brifysgol. Caiff yr holl arwyddion a deunydd argraffedig sy'n ymwneud â'r digwyddiad ac wedi'i anelu at y cyhoedd ei gynhyrchu'n ddwyieithog, yn unol â'r Cynllun hwn.

(iv) Gwrandawriadau a Chyfarfodydd Cyfreithiol

Mae'r hawl gan unrhyw aelod o'r cyhoedd, aelod o staff neu fyfyrwr sy'n rhan o wrandawriad disgyblu ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu'r Saesneg drwy holl gamau'r gwrandawriad hwnnw, p'un ai fel un sydd wedi'i gyhuddo/chyhuddo neu fel tyst. Rhaid i gyfranogwyr nodi o leiaf 3 diwrnod o flaen llaw os hoffent gyfrannu yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os penderfynir bod angen cyfieithydd, bydd un yn cael ei ddarparu.

3.1.4 Cyfarfodydd eraill ag aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld â'r Brifysgol

Bydd staff sy'n croesawu'r cyhoedd i'r Brifysgol yn gwneud hynny'n ddwyieithog, lle bo'n bosib.

Wrth y prif ddesgiau a chownteri derbyn bydd staff nad ydynt yn ddwyieithog yn galw ar aelod dwyieithog o staff i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd drafod ei fusnes/busnes yn Gymraeg, os ddymunant.

Os nad oes aelod dwyieithog o staff ar gael i ymdrin â'r ymholiad, caiff hyn ei esbonio i'r aelod o'r cyhoedd a gofynnir iddo/iddi a fyddai ef/hi'n fodlon trafod yr ymholiad â siaradwr Saesneg. Fel arall dylent gynnig yr opsiwn o drefnu cyfarfod â siaradwr Cymraeg yn hwyrach neu'r dewis o gyfathrebu â'r Brifysgol yn Gymraeg a derbyn ateb ysgrifenedig yn Gymraeg.

Caiff swyddi newydd lle y bydd aelod o staff yn brif bwynt cyswllt â'r cyhoedd mewn adran neu Goleg, gan gynnwys derbyn galwadau ffôn, ac ymholiadau wyneb i wyneb, eu hysbysebu fel 'Cymraeg yn hanfodol'. Os nad yw'r Brifysgol yn gallu recriwtio siaradwyr Cymraeg i lenwi'r swyddi hyn, mae'n bosib y gofynnir i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu Cymraeg i lefel addas o fewn dwy flynedd i'w penodiad. Caiff y swyddi hyn eu hadnabod gan y Colegau/Adrannau fel rhan o'r broses o ddatblygu Sgiliau Dwyieithog y Brifysgol.

Anogir staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wisgo'r bathodyn 'iaith gwaith' i bwysleisio bod y Brifysgol yn croesawu ac yn annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

3.2 Gweithredu'r Cynllun Iaith yn Fewnol gyda Staff y Brifysgol

3.2.1 Cyfieithu

Mae Gwasanaeth Cyfieithu'r Brifysgol yn darparu gwaith cyfieithu ysgrifenedig i'r holl adrannau.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn darparu cyfieithiadau ar gyfer gwaith a gyflwynir gan fyfyrwyr sydd wedi dewis dilyn cyrsiau a modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg neu sydd wedi dewis sefyll arholiadau neu gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg.

Bydd gan y Gwasanaeth Cyfieithu restr o sefydliadau a chanolfannau sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol sy'n gymwys ar gyfer gwasanaethau cyfieithu.

Bydd disgwyl i rai partneriaethau/prosiectau sy'n derbyn y rhan fwyaf o'u cyllid o ffynhonnell allanol ariannu eu gwaith cyfieithu eu hunain.

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu'n defnyddio cyfieithwyr allanol i gefnogi eu gwaith ar gyfnodau prysur.

Bydd gan y Brifysgol restr bendant o flaenoriaethau ar gyfer ceisiadau am waith cyfieithu sy'n cynnwys yr holl ddeunydd y mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'w ddarparu'n ddwyieithog yn unol â'r Cynllun.

Bydd y Gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'u canllawiau blynyddol cyhoeddedig ac yn cael eu hysbysebu ymhlith holl adrannau/Colegau'r Brifysgol.

Nid yw'r Brifysgol, yn unol â Chanllawiau presennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystyried cyfieithiadau electronig i'r Gymraeg yn dderbyniol oni bai bod y cyfieithiadau wedi'u prawf-ddarllen.

Bydd y Gwasanaeth yn argymhell defnyddio gwasanaeth cyfieithu am ddim Bwrdd yr Iaith Gymraeg am gyfieithiadau byr (dan 30 o eiriau).

3.2.2 Cyfieithu ar y Pryd

Gall cyfranogwyr i holl gyfarfodydd pwyllgorau'r Brifysgol a chyfarfodydd Llys, Senedd a Chyngor y Brifysgol ofyn am gyfleusterau cyfieithu cyhyd ag y rhoddir o leiaf wythnos o rybudd. Yn ôl y galw, bydd ysgrifennydd y pwyllgor, mewn ymgynghoriad â'r gadair, yn penderfynu a oes angen cyfleusterau cyfieithu ai peidio, ac yn nodi sail ei benderfyniad/phenderfyniad.

Bydd cyfleusterau cyfieithu hefyd ar gael, lle bo'u hangen mewn unrhyw fforwm staff a elwir ynghyd gan yr Is-ganghellor ac mewn cyfarfodydd Pwyllgorau sy'n ymwneud yn arbennig â materion Iaith Gymraeg e.e. Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg, Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg, Grŵp Datblygu Cyfrwng Gymraeg.

Mewn cyfarfodydd pwyllgor lle nad oes cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu,

gellir gwneud trefniadau cyfieithu anffurfiol os oes angen e.e. gall y cadeirydd gyfieithu neu gellir gofyn i aelod pwyllgor arall gyfieithu neu ddarparu crynodeb.

Caiff y sefyllfa hon ei hadolygu'n flynyddol gan Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg.

3.2.3 Gohebiaeth Fewnol Staff

Bydd pob llythyr, cylchlythyr, e-bost ac arolwg sy'n cael eu cynhyrchu gan weinyddiaeth ganolog y Brifysgol ac yn cael eu hanfon at yr holl staff yn ddwyieithog.

Os yw gohebiaeth o'r fath â staff yn cynnwys crynodebau, papurau pwyllgor ayyb a gynhyrchir yn allanol gan gyrff a/neu sefydliadau eraill, byddent yn dderbyniol yn eu hiaith eu hunain heb yr angen i'w cyfieithu. Fodd bynnag, gwneir cyrff o'r fath yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993.

Bydd gohebiaeth bersonol ffurfiol rhwng gweinyddiaeth ganolog y Brifysgol ac aelodau unigol o staff yn iaith ddewisol yr unigolyn hwnnw. Bydd cronfa ddata, a fydd yn cynnwys iaith ddewisol pob aelod o staff, yn cael ei chynhyrchu.

Bydd yr holl bapurau ar gyfer Llys y Brifysgol yn parhau i gael eu dosbarthu'n ddwyieithog.

Bydd yr holl bapurau ar gyfer Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg, Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg, a'r Grŵp Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael eu dosbarthu'n ddwyieithog.

Bydd y Brifysgol yn dosbarthu hysbysiadau dyddiadur ar gyfer ymgynulladau'r Senedd a'r Cyngor yn ddwyieithog ac yn gweithio tuag at gynyddu'r nifer o bapurau dwyieithog a ddosbarthir ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

Mae gohebiaeth electronig yn amodol ar yr holl gymalau yn yr adran hon.

Bydd Academi Hywel Teifi, a sefydlwyd yn 2010, yn gweithio i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd staff yn y Ganolfan Cymraeg i Oedolion, sy'n ffurfio rhan o'r academi, yn cynnig ystod eang o gymorth ac addysgu i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg staff yn y gweithle.

Mae'r Brifysgol yn gobeithio cynnal cwrs 'Gweithle Dwyieithog' blynyddol yn ogystal â hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg eraill i staff ar sail ffurfiol ac anffurfiol.

Targedir staff drwy ddata a ddelir ar dudalennau 'amdanaf fi' y fewnrwyd, yr arolwg o sgiliau Cymraeg staff a gynhelir bob dwy flynedd, a thrwy restr e-bost fewnol o siaradwyr Cymraeg.

Bydd y Brifysgol yn annog ac yn hyrwyddo cymuned o siaradwyr Cymraeg, drwy gynnal cyfarfodydd cymdeithasol rheolaidd i Siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

3.2.4. Y Rhyngrwyd

Mae'r wefan yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau i'r cyhoedd. Bydd y Brifysgol yn gweithio tuag at gael gwefan graidd ddwyieithog sy'n gweithio'n llawn, a fydd yn darparu defnyddwyr â dewis o'r iaith Gymraeg neu'r iaith Saesneg ar y dudalen hafan, erbyn mis Medi 2013.

Ar hyn o bryd mae gwefan iaith Gymraeg annibynnol (Popeth yn Gymraeg) ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae hyn yn darparu siaradwyr Cymraeg â gwybodaeth berthnasol a chyfredol ar wasanaethau a chysiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, newyddion a digwyddiadau, cyhoeddiadau a ffurflenni, ynghyd â gwybodaeth gorfforaethol gyffredinol. Mae gan Academi Hywel Teifi ei gwefan Gymraeg ei hun.

Bydd hafan y Brifysgol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn cynnig dewis o'r naill iaith i ddefnyddwyr.

Bydd pob tudalen graidd y Brifysgol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd hafan yr holl adrannau gweinyddol canolog ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd hafan pob Coleg academaidd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd Adrannau neu Golegau sy'n cynnig cysiau, neu fodiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg neu adrannau lle y ceir nifer sylweddol o staff a myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, yn darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â'r ddarpariaeth hon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar eu hafanau.

Bydd hafanau'r holl ganolfannau ymchwil yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd hafan pob prosiect ymchwil neu fenter ar y cyd lle y mae'r Brifysgol yn arweinydd neu'n bartner ariannu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mater i bob canolfan fydd penderfynu a ddylent gynnwys tudalennau dilynol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Pan ddefnyddir y rhyngwrdd fel cyfrwng dysgu ac addysgu (e.e. Y Porth, Blackboard) bydd y deunydd ar gyfer cysiau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Ni fydd gwybodaeth ar-lein sy'n ymwneud yn benodol â myfyrwyr rhyngwladol ar gael yn Gymraeg.

Bydd yr holl dudalennau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran dyluniad, ansawdd a chywirdeb.

Bydd Grŵp Rheoli'r We mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Polisi Iaith yn darparu canllawiau ar gyfer creu a chynnal y tudalennau gwe dwyieithog ac yn cyhoeddi'r canllawiau hyn.

Bydd adroddiad monitro blynyddol yn cael ei baratoi ar gynnwys dwyieithog y wefan gan wneud defnydd o ddulliau hapwirio yn ogystal a data mewnol.

Wrth ddatblygu a chynnal ein presenoldeb ar-lein, rydym yn ymrwymedig i gydymffurfio â'r safonau a amlinellir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei ddogfen 'Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog'.

3.3 Datblygu Ethos Dwyieithog y Sefydliad

3.3.1 Hunaniaeth Gorfforaethol y Sefydliad yng Nghymru

Lle bynnag y bydd hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yn cael ei harddangos yng Nghymru bydd yn ddwyieithog.

Bydd enw'r Brifysgol yn ymddangos gan ddefnyddio 'Prifysgol Abertawe' a 'Swansea University' gyda'i gilydd.

Bydd hyn yn cynnwys enw a logo'r Brifysgol, ei chyfeiriad a gwybodaeth safonol arall ar benawdau llythyrau, slipiau cyfarch, dalenni ffacs, cardiau busnes, gwahoddiadau a dogfennau tebyg eraill. Bydd teitlau swyddi a manylion cyswllt staff hefyd yn ymddangos yn ddwyieithog ar lythyrau ac e-byst. Bydd gwybodaeth ac enw'r Brifysgol yn dilyn yr un patrwm lle bynnag y bydd yn ymddangos yn barhaol ar arwyddion, cerbydau, adeiladau, arddangosfeydd neu gyhoeddiadau.

Pan ddefnyddir logo'r Brifysgol ar gyhoeddiadau neu ddeunyddiau a fwriedir ar gyfer Cymry Cymraeg, defnyddir fersiwn logo dwyieithog y Brifysgol sydd â'r teitl Cymraeg yn gyntaf e.e pamffled ar gyrsiau iaith Gymraeg.

3.3.2 Arwyddion o fewn ffiniau Prifysgol Abertawe

Mae'n rhaid i adeiladau ac eiddo'r Brifysgol gael eu henwau'n Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth a chyfarwyddiadau swyddogol, pa bynnag ffordd y cânt eu harddangos e.e. sgriniau plasma, yn ddwyieithog.

Bydd unrhyw arwyddion eraill e.e. arwyddion ffordd ar brif ffyrdd neu arwyddion gwybodaeth gyhoeddus, yn ddwyieithog.

Bydd arwyddion a fwriedir ar gyfer ymwelwyr â'r Brifysgol e.e. Diwrnodau Agored, Ffeiriau Myfyrwyr, hefyd yn ddwyieithog.

Mae arwyddion dros dro yn gynwysedig yn y categorïau uchod.

Os oes angen cael arwyddion dros dro ar unwaith, am resymau diogelwch brys, ac ni fydd yr arwyddion dan sylw'n aros yn eu lle am gyfnod sy'n hwy na 5 niwrnod gwaith, ni fydd yn ofynnol i'r rhain gael eu cyfieithu.

Os oes angen i'r arwyddion hyn aros yn eu lle am gyfnod o fwy na 5 niwrnod, bydd yr adran sy'n gyfrifol yn trefnu'r cyfieithiad, ac yn gwneud yn siŵr bod pob arwydd wedi'i arddangos

yn ddwyieithog.

Bydd ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd y ddwy iaith ar bob arwydd yn gyfartal.

Pan fydd y Brifysgol yn cynnal cynadleddau, bydd unrhyw arwyddion a wneir yn ddwyieithog.

Mae hyn yn cynnwys arwyddion gwasanaethau sydd ar gael i'r Cyhoedd (e.e. manau arlwy, siopau, neu wasanaethau iechyd) sydd wedi'u lleoli ar dir y Brifysgol sydd wedi'i gontractio allan i drydydd parti.

3.3.3 Arwyddion Gwybodaeth Gyhoeddus Eraill yng Nghymru

Bydd unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdanynt a leolir mewn unrhyw ran o Gymru (mewn ffeiriau recriwtio, cynadleddau a gynhelir yng Nghymru) yn ddwyieithog.

3.3.4 Deunydd argraffedig a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru

Bydd holl gyhoeddiadau a ddeunyddiau argraffedig canolog y Brifysgol a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog heblaw am wybodaeth sy'n gysylltiedig yn benodol â myfyrwyr rhyngwladol.

Fel rheol bydd fersiynau dwyieithog yn cael eu cynhyrchu o fewn yr un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddeunydd argraffedig e.e. poster, sicciau, bwydlenni, derbynebaw, archebion, mapiau ayyb.

Lle bo'n angenrheidiol cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, sicrheir bod y ddau ar gael ar yr un pryd. Lle bo'n angenrheidiol codi tâl, bydd cost y fersiwn dwyieithog yr un peth â chost unrhyw fersiwn unieithog, a bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn costio'r un pris hefyd.

Mae hyn yn cynnwys y deunydd argraffedig sydd ar gael i'r Cyhoedd gan gwmnïau neu gyrff (e.e. manau arlwy, siopau neu wasanaethau iechyd) a leolir ar dir y Brifysgol sydd wedi'i gontractio allan i drydydd parti.

Sicrheir bod partïon o'r fath yn ymwybodol o Gynllun Buddsoddi yn y Gymraeg Bwrdd yr Iaith sy'n darparu cyngor a gwasanaethau cyfieithu am ddim (e.e. bwydlenni) ar gyfer busnesau.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2009/10 cynhyrchodd Prifysgol Abertawe Brosbectws Israddedig Cymraeg llawn am y tro cyntaf. Bydd hyn yn parhau. Bydd fersiwn Saesneg y Prosbectws hefyd yn cynnwys gwybodaeth (yn Saesneg) am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Caiff cynnwys Cymraeg ei gyflwyno i'r prospectws i fyfyrwyr ôl-raddedig 2012, a fydd yn cynnwys croeso'r Is-ganghellor a chyflwyniad byr i'r iaith Gymraeg. Hefyd, bydd gwybodaeth am Academi Hywel Teifi yn Gymraeg, gydag esboniad yn Saesneg.

Caiff cynnwys Cymraeg y prospectws i fyfyrwyr ôl-raddedig ei adolygu'n flynyddol, fel rhan o adolygiad cyffredinol y cyhoeddiad.

Lle cynigir cwrs yn Gymraeg, cynhyrchir deunyddiau hyrwyddo yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Bydd y prif gyhoeddiadau corfforaethol megis yr Adolygiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn ddwyieithog.

Bydd hysbysiadau'n galw'r Llys ynghyd, yn ogystal â'r Agenda, a'r holl bapurau ar gyfer cyfarfodydd o'r fath, yn ddwyieithog.

Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gael eu gosod mewn ddwy golofn baralel ar ochr chwith ac ochr dde'r dudalen yn y drefn honno.

Bydd yr holl bapurau a gaiff eu cylchredeg ar gyfer cyfarfodydd y Llys, Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg, Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith a'r Grŵp Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.3.5 Ffurflenni a deunydd darllen eglurhaol i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru

Bydd unrhyw ffurflenni a deunydd darllen eglurhaol cysylltiedig a gynhyrchir gan y Brifysgol i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Fel rheol cynhyrchir fersiynau dwyieithog. Ar yr achlysuron hynny pan fydd angen cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd. Cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd a bydd pob fersiwn yn cynnwys nodyn yn datgan bod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

Bydd myfyrwyr newydd yn derbyn ffurflenni a deunydd darllen yn yr iaith a ddewisasant yn ystod y broses dderbyn.

Ar hyn o bryd mae Adrannau a Cholegau unigol yn cynhyrchu llawlyfrau israddedig ac ôl-raddedig i fyfyrwyr. Lle mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cynhyrchir llawlyfrau Cymraeg. Os nad oes unrhyw fodiwlau neu gyrsiau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y llawlyfrau'n cynnwys gwybodaeth am argaeledd tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg ac am y broses ar gyfer cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg. Bydd y llawlyfrau hefyd yn cynnwys cyflwyniad dwyieithog.

Caiff hyn ei adolygu'n unol â datblygiadau parhaus mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Caiff yr holl ffurflenni a thafleuni newydd at ddefnydd mewnol gan staff eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn y dyfodol, fel arfer fel un ddogfen. Os caiff y ffurflen ei chynhyrchu fel dogfennau ar wahân, bydd nodyn i danlinellu bod y ffurflen ar gael yn Gymraeg yn cael ei gynnwys ar y fersiwn Saesneg.

Bydd Swyddogion Iaith Gymraeg yn cynnal archwiliad blynyddol o ffurflenni a thafleuni staff gan adrannau unigol (e.e. Cyllid, Adnoddau Dynol) i fonitro'r ddarpariaeth ac i flaenoriaethu trefn eu cyfieithu neu eu hadolygu.

Mae gwybodaeth staff a ffurflenni sydd ar gael yn Gymraeg wedi'u harddangos gyda'i gilydd ar hyn o bryd ar y wefan Popeth yn Gymraeg er mwyn hybu'r defnydd a wneir ohonynt. Caiff mentrau pellach i annog staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r ffurflenni hyn eu datblygu [e.e. adran ddynodedig ar y wefan].

3.3.6 Hysbysiadau'r Wasg i'w cylchredeg yng Nghymru

Caiff unrhyw ddatganiad i'r wasg neu'r cyfryngau ei gynhyrchu'n ddwyieithog ond ei ddsbarthu yn iaith y cyhoeddiad/cyfrwng. Bydd unrhyw gyswllt pellach â'r wasg neu'r cyfryngau yng Nghymru yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn dibynnu ar iaith y gohebydd a/neu'r papur newydd, cylchgrawn neu raglen.

3.3.7 Deunydd cyhoeddusrwydd, ymgyrchoedd hysbysebu, ymgyrchoedd marchnata yng Nghymru

Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir gan y Brifysgol mewn cysylltiad ag ymgyrchoedd hysbysebu a marchnata yng Nghymru'n ddwyieithog (e.e. pamffledi, llyfrynau, cyfathrebu electronig).

Bydd hysbysebion sy'n ymddangos yn y wasg argraffedig yng Nghymru'n ddwyieithog gan gynnwys gwybodaeth e.e. testun/erthyglau i ymddangos gyda'r hysbysebion hynny.

Yn y wasg Gymraeg bydd hysbysebion yn Gymraeg yn unig.

Lle addysgir modiwlau/cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg gall unrhyw hysbysiadau a deunydd marchnata'n ymwneud â chysiau o'r fath gael eu cynhyrchu'n Gymraeg yn unig.

Mewn unrhyw arddangosfa recriwtio myfyrwyr yng Nghymru, caiff y prospectysau Cymraeg a Saesneg eu harddangos gyda'i gilydd.

Caiff unrhyw arolygon cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru ar ran y Brifysgol fel corff ac sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol eu cynnal yn ddwyieithog.

Bydd unrhyw arolwg penodol a gynhelir gan adran neu gan Goleg ar ran corff arall, neu fel rhan o'u gweithgarwch ymchwil academiaidd, yn yr iaith a nodir gan y noddwr.

3.3.8 Hysbysiadau Swyddogol a deunydd recriwtio staff

Bydd yr holl hysbysebion am swyddi yn y Brifysgol yn dangos enw'r sefydliad ar ffurf y logo dwyieithog priodol.

Bydd hysbysebion swyddi'n ymddangos yn y Wasg yng Nghymru'n ddwyieithog.
Bydd unrhyw hysbysebion am swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Gall unrhyw hysbysebion am swyddi sy'n ymddangos yn y wasg Gymraeg fod yn Gymraeg yn unig.

Gall hysbysebion sy'n ymddangos mewn cyhoeddiadau pwnc penodol rhyngwladol fod yn Saesneg yn unig.

3.4 Polisiâu Staffio

3.4.1 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Er mwyn galluogi'r Brifysgol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg, bydd yn ceisio annog sgiliau iaith Gymraeg o fewn y gweithlu. Cyflawnir hyn drwy gwrs 'Gweithle Dwyieithog' blynyddol ac hyfforddiant Cymraeg ffurfiol ac anffurfiol arall a chymorth i staff.

Bydd y Brifysgol yn datblygu strategaeth sgiliau dwyieithog erbyn Medi 2012. Mae cynnydd tuag at hyn wedi cynnwys arolwg staff cynhwysfawr o sgiliau Cymraeg yn 2010, a lansiad cronfa ddata ryngweithiol o sgiliau iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2011 i'w diweddarau gan bob aelod staff ar y fewnwyd staff. Yn dilyn cwblhau strwythur Colegau newydd y Brifysgol yn ddiweddarach yn 2011, cynhelir archwiliad o isafswm lefelau sgiliau iaith Gymraeg.

Caiff sgiliau iaith Gymraeg y staff eu cofnodi i fonitro lefelau sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu.

Cynhelir arolwg o sgiliau iaith Gymraeg yr holl staff bob dwy flynedd i fonitro datblygiadau.

Yng ngolau cynlluniau adrannol bydd data ar gael ar lefel sgiliau staff a chaiff hyn ei fonitro i sicrhau bod y lefel bresennol o wasanaeth iaith Gymraeg yn cael ei chynnal. Bydd hyn yn cynnwys y gwasanaeth a ddraperir gan Golegau unigol yn ogystal ag adrannau gweinyddol.

Y prif faen prawf ar gyfer pob penodiad yw gallu yn y swydd sydd i'w llenwi.

Wrth benodi staff, bydd y Brifysgol yn ystyried a yw'r angen am sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer swyddi.

Cynhyrchir canllawiau recriwtio ar sut i asesu'r angen am sgiliau iaith Gymraeg a chânt eu cynnwys mewn pecynnau recriwtio.

Bydd ffurflenni disgrifiadau swydd a manylebau person ar gyfer recriwtio staff yn cynnwys adrannau ar sgiliau iaith Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg ym mhob swydd yn y dyfodol.

Bydd ffurflenni monitro cyfleoedd cyfartal yn cynnwys adran ar allu yn yr iaith Gymraeg.

3.4.2 Cymhwysu ar gyfer y swyddi hynny lle mae'r Gymraeg yn hanfodol

Mae'r Brifysgol yn anelu at gael niferoedd digonol o staff gyda'r sgiliau priodol i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Gymraeg i aelodau'r cyhoedd, yn unol ag ymrwymadau'r Cynllun hwn.

Gofynnir i Adrannau a Cholegau ddarparu strategaeth staffio'n nodi'u blaenoriaethau, eu hadnoddau staffio dwyieithog presennol ac unrhyw gamau tymor hir y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn sicrhau lefelau digonol o sgiliau dwyieithog.

Lle bynnag y bydd medrusrwydd dwyieithog yn ofyniad, caiff pob swydd ei hasesu'n unol â Chanllawiau Recriwtio'r Adran Adnoddau Dynol er mwyn canfod y lefel o fedrusrwydd yn y Gymraeg sydd ei hangen.

Gall medrusrwydd neu barodrwydd i ddysgu i'r lefel benodol o allu yn yr iaith fod yn amod penodiadau lle y byddai medrusrwydd o'r fath o fantais wrth ymgymryd â dyletswyddau'r swydd.

Mae'r Brifysgol yn sylweddoli bod sicrhau cynrychiolaeth gref o siaradwyr Gymraeg o fewn yr Uwch Dîm Rheoli ac ar lefel uwch ar draws y Brifysgol yn allweddol i sicrhau statws a gweithrediad llawn i'r Cynllun. Bydd aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am yr iaith Gymraeg ac am weithredu'r Cynllun iaith Gymraeg. Bydd swyddi uwch lle nad yw medrusrwydd yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn sgil hanfodol yn cael eu hysbysebu gyda'r Gymraeg yn sgil ddymunol yn unol a pholisi'r Brifysgol, ac yn galw am ddealltwriaeth o natur ddwyieithog y sefydliad a safle'r Brifysgol mewn cenedl ddwyieithog. Cynigir hyfforddiant addas lle y bo angen.

Bydd Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith a'r Grŵp Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Gymraeg, mewn ymgynghoriad â'r Adran Adnoddau Dynol, yn adolygu'r ffordd y caiff y polisi staffio hwn ei weithredu gan reolwyr a phobl eraill sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo staff.

3.4.3 Hyfforddiant galwedigaethol penodol trwy gyfrwng y Gymraeg

Caiff yr angen am hyfforddiant galwedigaethol yn y Gymraeg ei ystyried yng nghyd-destun datblygiad Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Brifysgol a'i fonitro'n flynyddol.

Pan fo'r Colegau neu'r Adrannau'n adnabod anghenion hyfforddi, bydd y Brifysgol yn gweithio i gwrdd â'r alwad hon gan gynnig amrywiaeth o hyfforddiant a chymorth ffurfiol ac anffurfiol.

Pan fo'r alwad / angen am hyfforddiant galwedigaethol cyfrwng Gymraeg wedi'i hadnabod, bydd y brifysgol yn rhoi darpariaeth addas ar waith.

Mae aelodau staff sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg neu ddatblygu eu gwybodaeth am yr iaith yn gallu cofrestru ar y cyrsiau a ddarperir gan Academi Hywel Teifi.

Anogir aelodau staff i fynychu'r cyrsiau hyn a bydd Penaethiaid Colegau/Adrannau'n gwneud pob ymdrech i helpu staff i wneud hynny.

Rhoddir cyfle i'r holl aelodau staff sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg ymarfer eu sgiliau iaith a derbyn cymorth gan diwtoriaid a siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eraill drwy boreau coffi a gynhelir o fis Hydref 2011. Caiff y sesiynau eu hasesu gan y Swyddog Polisi Iaith Gymraeg a thiwtoriaid o Academi Hywel o safbwynt eu heffeithiolrwydd a'u haddasrwydd, a chânt eu datblygu/diwygio fel sy'n addas.

4. Cyd-destun Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a chynlluniau ar gyfer Datblygu yn y Dyfodol

1. Cyflwyniad

Mae'r flwyddyn sydd i ddod yn gyfnod allweddol yn natblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg gyda sefydlu'r Coleg Ffederal neu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (erbyn 2011/12). Rhoddwyd targed i CCAUC i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cael peth profiad o addysg cyfrwng Cymraeg gan 20% i 5,600 erbyn 2013/14. Yn y ddogfen, *Er mwyn ein Dyfodol: Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Ddeg (Tachwedd 2009)*, nodir bod datblygu a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amcan pwysig. At hynny, mae'n cyfeirio at y posibiladau a allai godi o datblygu'r Coleg Ffederal:

"The Coleg Ffederal model will provide an independent oversight, management, and development of Welsh medium higher education across Wales...This will help deliver social justice for those who seek to learn through the medium of Welsh, but also carries potential economic benefit through wider access to workforce development, and business opportunities which exploit the potential offered by a bilingual environment."

2. Y Cyd-destun Cenedlaethol

Yn nhermau darpariaeth, bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn defnyddio'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol fel sail i gynyddu cyfleoedd ar gyfer astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun wedi blaenoriaethu meysydd pwnc i ddatblygu addysg brifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu Prifysgol Abertawe'n chwarae rôl weithgar yn y Grŵp Sector Cyfrwng Cymraeg Cenedlaethol a seiliwyd strategaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol ar weithio o fewn y cynllun datblygu i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sefydliad.

3. Cyd-destun Prifysgol

Ym mis Awst 2010 sefydlwyd Academi Hywel Teifi ym Mhrifysgol Abertawe. Mae Adran y Gymraeg wedi uno â Chymraeg i Oedolion, gan ddarparu sail ar gyfer datblygu pwerdy newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg o fewn y sefydliad. Bydd yr Academi'n sicrhau proffil uchel ar gyfer yr iaith Gymraeg ar y campws, a hefyd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol. Bydd yn cynyddu'n sylweddol bresenoldeb yr iaith Gymraeg yn y Brifysgol ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhagwelir y bydd uno'r adrannau'n arwain at gydweithio pellach i sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer y rheiny

sy'n gweithio ac yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, p'un ai a ydynt yn ddechreuwr, yn ddysgwyr neu'n rhugl yn y Gymraeg.

4. Strategaeth Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe

Seiliwyd y Strategaeth ar ddarparu elfennau o gyrsiau, yn hytrach na chysiau cyfan, trwy gyfrwng y Gymraeg, fel y gall myfyrwyr astudio'n ddwyieithog.

Mae gan strategaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol bedwar nod allweddol:

- Cynnal darpariaeth mewn meysydd lle mae cryfderau presennol yn nhermau AU cyfrwng Cymraeg
- Ymestyn darpariaeth i feysydd pwnc newydd lle mae niferoedd sylweddol o siaradwyr Cymraeg a photensial i gynyddu galw (Tymor canolig 2010-12)
- Archwilio'r potensial i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sgil datblygiadau ehangach mewn meysydd pwnc gwyddonol
- Darparu myfyrwyr â chyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg i feithrin a datblygu sgiliau newydd a chyflogadwyedd

4.1 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol a datblygiadau arfaethedig

4.1.1 Pynciau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau, y Gyfraith a Busnes

Mae Prifysgol Abertawe ar flaen y gad ar hyn o bryd o safbwynt darpariaeth leithoedd Modern ar draws Cymru. Gyda mewnbwn staff profiadol a deiliaid ysgoloriaethau a chymrodoriaethau cyfrwng Cymraeg, a weinyddir gan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, mae sawl prosiect ar waith, a gyllidir gan grantiau gan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â datblygu deunyddiau astudio newydd trwy gyfrwng y Gymraeg, sefydlwyd Ysgol Haf lwyddiannus ac mae ysgoloriaethau israddedig hefyd wedi'u cynnig.

Mae llwyfan eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer cydweithio â disgyblaethau eraill megis y Gymraeg a'r Cyfryngau. Yn draddodiadol bu'r rhain yn bynciau cryf yn y Brifysgol, yn nhermau AU cyfrwng Cymraeg – gan elwa o ymdrechion a chymorth sylweddol uwch-ddarlithwyr, ac yn achos y Cyfryngau, y cynlluniau ysgoloriaeth a chymrodoriaeth Cyfrwng Cymraeg.

Cyfoethogwyd cyfleoedd ar gyfer twf a chydweithio rhyngddisgyblaethol pellach gyda sefydliad Academi Hywel Teifi. Bydd yr Academi hefyd yn cynnig un o bedair prif ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i israddedigion yn y Gymraeg o 2011 ymlaen.

Bydd y Gyfraith yn parhau i gynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r Brifysgol yn bwriadu gallu bodloni'r trothwy credyd ar gyfer ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y Gyfraith. Fel rhan o fenter draws-ddisgyblaethol, mae modiwl newydd ar Hanes y Gyfraith yng Nghymru hefyd ar gael i fyfyrwyr y Gyfraith a Hanes. Bydd myfyrwyr yn y Gymraeg hefyd yn gallu cymryd mantais o'r modiwl hwn.

Mae ysgoloriaeth ymchwil cyfrwng Cymraeg mewn Hanes wedi dechrau yn 2010/11 ac yn dilyn hyn mae modiwlau cyfrwng Cymraeg newydd yn cael eu datblygu a'u cynnig i israddedigion. Bydd hyn arwain at atgyfodiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn adran sydd â thraddodiad o gynhyrchu academyddion parchus a nodedig sydd wedi addysgu'n Gymraeg.

Mae datblygiadau newydd mewn Busnes yn cynnwys modiwl sy'n canolbwyntio ar sgiliau busnes iaith Gymraeg yn y gweithle, sydd hefyd ar gael i israddedigion mewn meysydd pwnc eraill megis y Gymraeg, y Gyfraith a'r Cyfryngau.

4.1.2 Pynciau STEM, Daearyddiaeth a Biowyddoniaeth

Ers nifer o flynyddoedd bu Daearyddiaeth yn faes cryf ar gyfer darpariaeth AU cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, yn yr elfennau Dynol ac yn yr elfennau Ffisegol. Bu mewnbyn dau uwch-ddarlithydd sefydledig yn allweddol i'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes pwnc hwn yn y Brifysgol. At hynny, cryfhawyd darpariaeth yn y maes pwnc hwn gyda dyfarniad dwy ysgoloriaeth ymchwil PhD cyfrwng Cymraeg, wedi'u hariannu gan y Ganolfan ar gyfer AU Cyfrwng Cymraeg.

Mae israddedigion wedi elwa o'r cynllun ysgoloriaethau *AmNawdd*, a weinyddwyd gan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg ar y cyd â chyrrff amgylcheddol megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Bellach caiff yr ysgoloriaethau hyn eu hymgorffori'n rhan o'r ysgoloriaethau ymchwil cyfrwng Cymraeg newydd a gynigir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae Biowyddoniaeth yn faes datblygu mwy newydd a chanddo ddarpariaeth yn gysylltiedig â Daearyddiaeth ac sydd ar gael i fyfyrwyr y Coleg Gwyddoniaeth. Ar hyn o bryd, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i chanolbwyntio ar elfennau o ecoleg ddyfrol, gyda datblygiad modiwl newydd – a gychwynwyd gyda chyllid gan Bwyllgor Defnyddio'r Gymraeg y Brifysgol.

Mae darpariaeth mewn Mathemateg hefyd wedi elwa o gyllid mewnol, gyda chefnogaeth Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg am brosiect i gyfieithu modiwlau allweddol mewn Calcwlws a Geometreg i'r Gymraeg. Mae cyllid allanol gan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg hefyd wedi cefnogi cymrodoriaeth mewn Mathemateg ac mae'r adran yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o gyflawni'r Cynllun Datblygu cenedlaethol yn y maes pwnc, gyda dechreuad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Gyda'r datblygiad o Fathemateg, mae cynlluniau eisoes wedi'u gwneud i gynnig darpariaeth mewn meysydd cysylltiedig eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae potensial mawr i ddatblygu cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg mewn Peirianeg, sydd â nifer sylweddol o israddedigion sy'n siarad Cymraeg. Cynigir seminarau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr a bydd sawl elfen sy'n gysylltiedig â phrosiectau blwyddyn terfynol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae lleoliadau gwaith cyfrwng Cymraeg hefyd yn cael eu datblygu.

Caiff elfennau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar seminarau eu cyflwyno ar gyfer myfyrwyr Chwaraeon ac Ymarfer Corff ac mae cyfleoedd ar gyfer Cyfrifiadureg hefyd yn cael eu harchwilio.

4.1.3 Pynciau'n ymwneud â Gwyddor Iechyd a Chymdeithasol

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael mewn Nyrsio, ac mae'n canolbwyntio ar fodiwlau'n seiliedig ar waith a gwnaed ymdrechion sylweddol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chodi'i phroffil yn fewnol trwy gynhyrchu deunyddiau marchnata a gweinyddol dwyieithog.

Mewn Seicoleg, mae darpariaeth ar gael ar hyn o bryd trwy gyfrwng y Gymraeg, diolch i gymrawd cyfrwng Cymraeg. Mae aildrefnu mewnol diweddar yn yr Ysgolion wedi creu cyfleoedd ar gyfer cydweithio â Nyrsio i ddatblygu darpariaeth bellach.

Lleolir Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yn yr un ysgol ac mae Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg y Brifysgol wedi cytuno i gyllido adolygiad a fyddai'n galluogi strwythur ffurfiol ar gyfer cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr adran. Bydd cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith cyfrwng Cymraeg i israddedigion yn cael eu datblygu yn y maes hwn, gyda chydweithrediad awdurdodau lleol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

4.1.4 Datblygiad Proffesiynol: Lleoliadau Gwaith

Crybwyllwyd datblygu cyfleoedd lleoliadau gwaith eisoes ac maent yn gysylltiedig â nifer o feysydd pwnc e.e. y cyfryngau, y gyfraith, nyrsio ayyb. At hynny, rhoddodd Bwyllgor Defnyddio'r Gymraeg arian yn ddiweddar i archwilio'r posibilïadau hyn ymhellach.

Mae'r camau canlynol hefyd yn cael eu cymryd:

1. Cydweithio ag Adran Yrfaeodded y Brifysgol
2. Gweithio wrth ochr y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg – i fanteisio ar gynlluniau noddi myfyrwyr, megis AmNawdd (Daearyddiaeth a'r Amgylchedd) a CyfNawdd (y Gyfraith) – a fydd bellach yn dod yn rhan o gynlluniau ysgoloriaeth pellach a gaiff eu cychwyn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
3. Datblygu cysylltiadau cryf gyda chwmnïau lleol– e.e. yn y cyfryngau a TG – i wella cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr.

5. Dulliau i gefnogi'r gwaith o gynnal ac ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg

5.1. Marchnata a recriwtio

Ym mis Medi 2009 penodwyd Cydlynnydd Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal mae Swyddog Recriwtio a Datblygu'r Gymraeg sy'n marchnata ac yn hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae strategaeth recriwtio cyfrwng Cymraeg wrthi'n cael ei datblygu i gefnogi a gweithredu'r strategaeth darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Caiff y strategaeth ei hadeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud yn y meysydd canlynol:

1. Datblygu ac ymestyn cysylltiadau gydag ysgolion a cholegau (a darpar fyfyrwyr)
2. Datblygu a gwella cysylltiadau gyda myfyrwyr presennol
3. Datblygu cyfleoedd i farchnata AU cyfrwng Cymraeg drwy'r rhynggrwyd – rhwydweithio cymdeithasol ayyb.
4. Datblygu a meithrin cysylltiadau cryf ac effeithlon gydag ymgyrch Mantais
5. Cynnal a chynyddu presenoldeb mewn ffeiriau AU a chynadleddau (e.e. UCAS, Mantais) a digwyddiadau cenedlaethol e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd.

5.2 Bwrsariaethau

5.2.1 Cyfleoedd allanol – Ysgoloriaethau a sefydlwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae dau gategori:

Prif ysgoloriaethau - £1,000 y flwyddyn mewn meysydd pwnc lle mae myfyrwyr yn astudio isafswm o 80 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg. (Cyfanswm o 50)

Ysgoloriaethau astudio - £500 y flwyddyn mewn meysydd pwnc lle mae myfyrwyr yn astudio isafswm o 40 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg. (Cyfanswm o 100)

5.2.2 Cyfleoedd mewnol – e.e. Ysgoloriaethau a gynigir gan adrannau megis Ieithoedd Modern a'r Cyfryngau

5.2.3 Mae'r Brifysgol yn archwilio'r posibiliad o sefydlu ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe i israddedigion. Mae'r mathau hyn o ysgoloriaethau eisoes yn cael eu cynnig gan nifer o sefydliadau AU yng Nghymru.

5.3 Cefnogaeth gyffredinol ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith

Bydd Academi Hywel Teifi yn cefnogi, cynyddu a chyfoethogi darpariaeth addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe, boed hynny drwy addysgu ffurfiol neu anffurfiol.

Bydd yr Academi yn adeiladu ar y ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli gan ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr nad ydynt yn dilyn eu haddysg yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn tiwtorialau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, yn ôl y pwnc. Rhoddir blaenoriaeth i sefydlu tiwtorialau neu seminarau cyfrwng Cymraeg yn y meysydd canlynol, Mathemateg, Peirianeg, Hanes a Seicoleg dros y tair blynedd nesaf.

Bydd yr Academi hefyd yn cydweithio ag adrannau canolog y Brifysgol er mwyn datblygu systemau cryfach o gofnodi sgiliau iaith Cymraeg myfyrwyr, er mwyn galluogi marchnata'r cyfleoedd a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn fwy effeithiol, a chynyddu'r defnydd.

Bydd y Brifysgol yn datblygu cynllun i gefnogi sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr Cymraeg, gan ffurfio cysylltiadau manteisiol a chyffrous â darpar gyflogwyr mewn amryw o ddisgyblaethau. At hyn, yn y flwyddyn academaidd 2011/12 bydd y Brifysgol yn lansio cynllun *laith i Bawb* a fydd yn rhoi cyfle i unrhyw fyfyrwr dderbyn cyflwyniad i'r Gymraeg ac ennill credydau tuag at eu gradd. Cynigir dau fodiwl 10 credyd ar gyfer dechreuwyr sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw gwrs gradd o fewn y Brifysgol, a gallant fod ar eu blwyddyn gyntaf neu eu hail flwyddyn o astudio. Dan y cynllun bydd cyfle hefyd i astudio leithoedd Modern trwy gyfrwng y Gymraeg. Dangosodd astudiaeth a gynhaliwyd gan Goleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau fod galw ymhlith myfyrwyr cyfredol am gyfleoedd o'r fath (allan o 400 o ymatebion nodwyd bod bron i 80 o fyfyrwyr am fanteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg).

Ym mis Medi 2011 bydd cangen Prifysgol Abertawe'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cael ei hagor yn Academi Hywel Teifi gan ddarparu pwynt cyswllt ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sydd am fanteisio ar gynlluniau cyllido, yr adnoddau a'r gefnogaeth addysgol sydd ar gael gan y Coleg Cymraeg newydd. Mae Prifysgol Abertawe hefyd yn bwriadu ymwneud yn llawn â Thystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol erbyn y flwyddyn 2012/13.

6. Casgliadau

Mae Prifysgol Abertawe'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, a bydd yn ymestyn darpariaeth i feysydd 'newydd' a chyffrous. Gyda datblygiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, bydd Prifysgol Abertawe'n chwarae rôl allweddol yn y broses o gyfoethogi addysg uwch cyfrwng Cymraeg, gan gymryd mantais llawn o'r cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir yma ar hyn o bryd.

Mae Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg y Brifysgol wedi ymrwymo'n llawn i fodloni dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gwella cyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

7. Monitro a Gweithredu'r Cynllun

7.1 Camau gweinyddol i'w cymryd gan y Brifysgol i weithredu'r Cynllun

Y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiadau blynyddol ar y broses o weithredu'r Cynllun drwy'r Senedd a'r Bwrdd Rheoli (gweler 1.2).

Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith, Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg a'r Grŵp Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun.

Bydd y drefn hon o gyfrifoldeb yn sicrhau y caiff y Cynllun ei weithredu gydag awdurdod llawn y Brifysgol.

Bydd y Swyddog Polisi Iaith Gymraeg yn sicrhau bod y Cynllun Iaith yn cael ei weithredu trwy gydol y sefydliad. Bydd ef/hi hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith Adrannau, Colegau ac aelodau unigol o staff o'r ffyrdd y dylid gweithredu'r Cynllun. Gwneir hyn drwy ddsbarthu canllawiau teilwredig, drwy ymgynghori â Phenaeithaid Adrannau a Cholegau a thrwy gynnig cyrsiau addas.

Pennaeth yr Adran neu'r Coleg dan sylw fydd yn gyfrifol am weithredu a gweinyddu'r Cynllun o fewn yr adran honno neu'r Coleg hwnnw.

Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Polisi Iaith Gymraeg, bydd y Pennaeth yn gyfrifol am baratoi:

- (i) Cynllun Datblygu
- (ii) adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac
- (iii) enwebu Cydlynnydd Polisi Iaith Gymraeg

Bydd y Cydlynnydd Polisi Iaith Gymraeg yn cael ei friffio'n llawn ar ofynion a goblygiadau'r Cynllun Iaith Gymraeg sy'n berthnasol i weithgareddau'i Adran/Coleg.

Bydd pob Pennaeth Adran/Coleg yn adrodd yn flynyddol drwy'r Swyddog Polisi Iaith Gymraeg i Bwyllgor Defnyddio'r Gymraeg a Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith.

Bydd monitro'r Cynllun hefyd yn digwydd drwy ddulliau megis defnyddio "cwsmeriaid cudd" i brofi darpariaeth gwasanaethau.

Bydd y Cydlynnydd Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, trwy'r Grŵp Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, yn gyfrifol am hyrwyddo addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, monitro darpariaeth bresennol a sicrhau ansawdd. Bydd y Grŵp Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn adrodd i Bwyllgor Defnyddio'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn darparu gwasanaeth cyfieithu mewnol trwy'i Gwasanaeth Cyfieithu sy'n ymgymryd â gwaith cyfieithu swyddogol y sefydliad. Ar hyn o bryd mae gwaith cyfieithu ar y pryd yn cael ei gontractio allan i asiantaethau cyfieithu lleol.

Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu'n sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir gan y cyfieithwyr swyddogol o safon uchel, a gwneir pob ymdrech i sicrhau y gall unrhyw gyfieithwyr eraill a gyflogir ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf hefyd.

Rhoddir canllawiau a chyfarwyddiadau ynghylch y defnydd priodol o'r gwasanaeth cyfieithu mewnol ac asiantaethau cyfieithu allanol i bob adran a Choleg.

7.2 Contract neu gytundeb yn ymwneud â thrydydd parti i ddarparu gwasanaeth i'r Cyhoedd yng Nghymru

(gan gynnwys gwasanaethau a gaiff eu 'contractio allan' yn unol â thelerau'r Cynllun a'r canllawiau a nodir gan Fwrdd yr Iaith yn y ddogfen *Contractio allan gontractau gwasanaeth cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg*.)

Pan fydd Adran neu Goleg yn defnyddio asiant neu gontractwr arall y tu allan i'r Brifysgol i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd yr Adran neu'r Coleg yn sicrhau bod yr asiant, y contractwr neu'r is-gontractwr yn gweithredu'n unol ag elfennau perthnasol y Cynllun Iaith, ac yn adrodd yn ôl yn gyson ar eu perfformiad.

Bydd pob Adran a Choleg o fewn y Brifysgol yn derbyn canllawiau ar hyn.

Dylai unrhyw ddogfennau tendro, manylebau a dogfennau cytundebol a chytundebau gynnwys canllawiau ar gyfer darparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio â'r Cynllun Iaith, a lle y bo'n briodol, gellir gofyn am ddatganiad yn dangos sut y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu cyflawni.

Bydd unrhyw waith a wneir gan asiant, contractwr ayyb yn cael ei oruchwylio i sicrhau bod y gwasanaethau'n cydymffurfio ag adrannau perthnasol y Cynllun.

Mewn achosion lle mae trydydd parti'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg, rhaid sicrhau bod y gwasanaeth yn gyson â'r Cynllun Iaith.

7.3 Monitro'r Gwaith o Weithredu'r Cynllun a Chymharu Perfformiad Prifysgol Abertawe gyda'r safonau hynny a amlinellir yn y Cynllun

Ar ran Bwrdd Rheoli'r Brifysgol bydd y Swyddog Polisi Iaith Gymraeg a'r Cydlynnydd Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn paratoi adolygiad ysgrifenedig blynyddol o'r Cynllun Iaith yn unol â fformat adolygiad blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymharu perfformiad Prifysgol Abertawe â'r safonau a amlinellir yn y Cynllun, esboniad o'r rhesymau pam na chafodd unrhyw safonau neu dargedau eu cyflawni, ac amlinelliad o'r camau a gymerir i sicrhau perfformiad gwell.

Bydd y pwyllgorau perthnasol yn trafod yr adroddiad, ac yna bydd Cyngor y Brifysgol yn ei drafod, ac yna caiff ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ynghyd ag unrhyw argymhellion y mae'r pwyllgorau wedi'u gwneud ar gyfer gweithredu pellach.

Caiff datganiad ar yr adroddiad hwn ei gynnwys yn Adolygiad Gweithredol ac Ariannol blynyddol y Brifysgol.

Bob 2 flynedd cynhelir arolwg staff er mwyn canfod barnau ynghylch safon y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a ddarperir (fel rhan o'r arolwg).

Yn ogystal cynhelir arolwg tebyg o fyfyrwyr bob 2 flynedd.

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu gweithdrefn gwyno rhag ofn y bydd unrhyw anfodlonrwydd mewn perthynas â'r Cynllun.

Mae'r weithdrefn hon yn galluogi unrhyw unigolyn i awgrymu gwelliannau i'r gwasanaeth dwyieithog.

Yn y lle cyntaf dylid cyfeirio unrhyw gwynion neu sylwadau at naill ai'r Swyddog Polisi Iaith Gymraeg neu'r Ysgrifennydd Gweinyddol, ac wedi hynny cânt eu cyfeirio at gadeiryddion y pwyllgorau perthnasol a Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith.

7.4 Targedau ar gyfer gweithredu'r cynllun

Pennir targedau penodol ar gyfer gweithredu'r cynllun. Bydd y trgedau hyn yn nodi'r camau sydd eisoes wedi'u cymryd, y rhai hynny y gellir eu rhoi ar waith ar unwaith, y rhai a nodwyd yn dargedau tymor byr (un flwyddyn), targedau tymor canolig (dwy flynedd) a thargedau tymor hwy (tair blynedd a mwy).

Rhestrir y targedau hyn yn y *Cynllun Gweithredu (Atodiad 1)* ynghyd â manylion y rhai sy'n gyfrifol am weithredu ar bob targed.

7.5 Y broses ymgynghori

Cyhoeddwyd y Cynllun Iaith gwreiddiol yn 2004 ac fe'i lanswyd yn ffurfiol yn y Brifysgol wedi ymgynghori â staff a myfyrwyr drwy'r Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg.

Bydd y Brifysgol yn cyhoeddi'r Cynllun diwygiedig hwn (2010) ar ei gwefan a bydd y ddogfen ar gael ar gais i unrhyw unigolyn.

Anfonir copïau at yr holl adrannau a Cholegau yn ogystal â chanllawiau teilwredig ar gyfer gweithredu adrannau perthnasol o'r Cynllun.

Gwneir cyfeiriadau at argaeledd y Cynllun ym mhrosbectysau a llawlyfrau'r Brifysgol.

At hynny cyfeirir at y Cynllun yn y cwrs sefydlu i staff newydd a bydd staff yr Adran Adnoddau Dynol yn rhoi pamffled yn cynnwys crynodeb o'r Cynllun i'r holl staff newydd.

Caiff y Cynlluniau ei hyrwyddo a'i hysbysebu yn fewnol ac wrth gysylltu â chyrrff allanol.

Ceir rhestr o'r unigolion/Adrannau sy'n gyfrifol am hyrwyddo agweddau gwahanol o'r Cynllun yn y *Cynllun Gweithredu (Atodiad 1)*.

Tynnir sylw at ethos dwyieithog y polisi hwn yn rhaglen cyhoeddusrwydd cyffredinol y Brifysgol sy'n cynnwys presenoldeb y sefydliad mewn digwyddiadau cenedlaethol.